Dirprwy Reolwr Profiad
**Theatr Clwyd**
Disgrifiad Swydd

**Yn adrodd i:** Rheolwr Profiad (Theatr Clwyd)
**Yn gyfrifol am:** Cynorthwywyr a Gwirfoddolwyr y Ddesg Groeso (goruchwylio shifftiau)

**Pwrpas y Swydd**
O dan gyfarwyddyd y Rheolwr Profiad, ysgwyddo cyfrifoldeb gweithredol am y profiad blaen tŷ, gan sicrhau gwasanaeth diogel, effeithlon ac o safon uchel yn gyson i bob ymwelydd ac aelod o'r cwmni.

**Cyfrifoldebau allweddol**

**Cyffredinol**

- Sicrhau bod Croeso Clwyd yn cael ei gyflwyno gan y tîm Profiad.
- Cymell, arwain drwy esiampl a goruchwylio'r tîm Profiad, gan gynnwys y gwirfoddolwyr, yn ddyddiol drwy gynnal y safonau uchaf o gyflwyno; dangos agwedd gadarnhaol; delio'n brydlon ac yn broffesiynol ag unrhyw geisiadau a darparu gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol i bawb.
- Cadw cofnod ysgrifenedig cyflawn a manwl gywir o ddigwyddiadau yn ystod shifftiau a hefyd rhoi gwybod am y rhain i'r Rheolwr Profiad pan mae hynny'n bosibl

**Rheoli Dyletswyddau'r Adeilad**

- Goruchwylio'r Ddesg Groeso i gefnogi'r tîm Profiad i greu amgylchedd croesawgar
- Monitro System Reoli'r Adeilad i sefydlu'r defnydd cywir o awyru, goleuadau ac ynni ac i wirio statws systemau tân a diogelwch.
- Sicrhau bod pob agwedd ar y gwasanaeth blaen tŷ'n darparu amgylchedd glân, taclus a chroesawgar i bawb.
- Sicrhau bod y tîm Profiad yn barod i groesawu ein hymwelwyr ac i agor yr adeilad ychydig cyn yr amser agor sy'n cael ei hysbysebu i ragori ar ddisgwyliadau o ran gwasanaeth.
- Sicrhau bod prosesau diwedd y dydd fel cyfrif arian yn cael eu rheoli'n effeithiol ac yn ddiogel.
- Bod yn gyfrifol am gloi a diogelu'r adeilad ar ddiwedd y shifft olaf bob dydd
- Cerdded llwybr y Gwestai drwy bob gofod yn rheolaidd, i sicrhau eu bod yn ddiogel ac yn groesawgar.
- Cynnal archwiliadau rheolaidd i sicrhau bod pob gofod, yn fewnol ac yn allanol, mewn cyflwr gweithio da ac adrodd i'r Rheolwr Profiad pan nad ydynt.

**Goruchwylio Digwyddiadau Byw**

- Cyflwyno gweithgarwch digwyddiadau yn unol â gweithdrefn weithredu safonol y lleoliad gan ddarparu profiad rhagorol i gwsmeriaid
- Bod yn bresennol yn rheolaidd o amgylch y mannau cyhoeddus yn yr adeilad, gan ymgysylltu â defnyddwyr yr adeilad, sicrhau adborth, datblygu perthnasoedd a hyrwyddo Theatr Clwyd yn gadarnhaol
- Goruchwylio lles a diogelwch y gynulleidfa a chynnal gwasanaethau cwsmeriaid rhagorol bob amser.
- Croesawu pob cwmni, perfformiwr ac artist pan fyddant yn yr adeilad a sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi.
- Annog perthynas waith gref gyda'n partner arlwyo a helpu Gwesteion gyda'u hymholiadau am fwyta yn yr adeilad.
- Darparu cefnogaeth i'r Rheolwr Digwyddiadau a'r tîm digwyddiadau ehangach yn ôl yr angen
- Cyfarfod â'r Rheolwr Profiad neu'r Cydlynydd Profiad pan mae angen ar ddechrau unrhyw shifftiau i sicrhau trosglwyddo llyfn a gwybodus.
- Helpu i greu awyrgylch o greadigrwydd yn yr adeilad sy'n annog artistiaid a chynulleidfaoedd i greu a chymryd rhan yn rhaglen artistig Theatr Clwyd.
- Sicrhau bod ymwelwyr sydd ag anghenion ychwanegol neu ofynion mynediad yn cael eu croesawu i'n hadeilad hygyrch

**Trwyddedu, Iechyd a Diogelwch**

- Sicrhau cydymffurfiaeth bob amser â phob polisi a gweithdrefn statudol ar gyfer tân, diogeledd, Iechyd a Diogelwch ac argyfwng.
- Sicrhau bod rheoliadau trwyddedu ac Iechyd a Diogelwch yn cael eu dilyn bob amser.
- Goruchwylio a mynychu ymarferion tân, a gyda'r Rheolwr Profiad, sicrhau bod pob aelod o'r tîm Profiad yn gwybod beth yw’r weithdrefn gywir a bod aelodau'r tîm yn derbyn hyfforddiant ymwybyddiaeth tân rheolaidd.
- Mabwysiadu rôl arwain wrth wagio'r adeilad os oes angen.
- Gweithredu fel swyddog cymorth cyntaf ar gyfer Theatr Clwyd (bydd hyfforddiant yn cael ei roi os oes angen).
- Cadw cofnodion o unrhyw ddigwyddiadau neu ddamweiniau a chadw cyflenwadau Cymorth Cyntaf priodol.

**Arall**

- Gweithredu er budd gorau Theatr Clwyd bob amser.
- Unrhyw ddyletswyddau eraill fel sy’n ofynnol yn rhesymol gan y Rheolwr Profiad.
- Cynrychioli a hyrwyddo'r sefydliad yn gadarnhaol ar bob lefel.

**Manyleb y Person**

**Hanfodol**

- Profiad ymarferol mewn rôl weithredol yn delio â chwsmeriaid mewn lleoliad diwylliannol, atyniad ymwelwyr, arlwyo, manwerthu, gwesty, bwyty, bar neu amgylchedd lletygarwch arall a / neu gymhwyster cydnabyddedig priodol.
- Dangos angerdd dros weithio o fewn y sector celfyddydau perfformio.
- Profiad o oruchwylio a chymell ac ysbrydoli aelodau tîm rheng flaen (staff a gwirfoddolwyr) yn gadarnhaol drwy arferion gwaith rhagorol.
- Gwybodaeth am ofynion y Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd a gweithio gyda chynulleidfaoedd / ymwelwyr ag anableddau.
- Sgiliau gweinyddu trefnus ac effeithiol.
- Sgiliau TG medrus.
- Gallu clir i gyfathrebu'n effeithiol ac yn hyderus, ar lafar ac yn ysgrifenedig, gyda grwpiau amrywiol o bobl.
- Dealltwriaeth o amrywiaeth a chynhwysiant ac ymrwymiad iddynt.
- Ymrwymiad i ragoriaeth artistig.
- Agwedd hyblyg at oriau gwaith i ddiwallu anghenion y gwasanaeth, gan gynnwys gweithio gyda'r nos, ar benwythnosau ac ar wyliau banc.

**Dymunol**

- Gwybodaeth am y gymuned leol o amgylch Theatr Clwyd, neu barodrwydd i ddysgu amdani.
- Gwybodaeth am fyd y theatr, dawns a ffurfiau celf eraill yn y DU yn gyffredinol a Chymru yn benodol.
- Gwybodaeth gyfredol am drwyddedu a deddfwriaeth iechyd a diogelwch.
- Cymwysterau Iechyd a Diogelwch.
- Hyfforddiant Cymorth Cyntaf.
- Cymraeg llafar ac ysgrifenedig.
- Profiad o reoli digwyddiadau.
- Gwybodaeth dda am dechnegau hyrwyddo a thechnegau gwerthu a marchnata.
- Trwydded yrru lawn.